

IS-BWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 (B) - DYDD MERCHER, 4 MAWRTH 2026

COFNODION CYFARFOD Is-bwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 (B) A GYNHALIWYD ar ffurf hybrid yn Siambr y Cyngor – Y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB, ddydd Mercher, 4 Mawrth 2026 AM 10:00

Yn Bresennol

Y Cyngorydd R Williams – Cadeirydd

H T Bennett

RM James

Swyddogion:

Kirsty Evans
Mark Galvin
Michael Pitman
Katie Wintle

Uwch Swyddog Trwyddedu
Uwch Swyddog Gwasanaethau Democraidd – Pwyllgorau
Swyddog Cymorth Technegol – Gwasanaethau Democraidd
Cyfreithiwr

Ceiswyr:

Shijo Mundackal Jose
Shins Jose
P Pepper

Cyfarwyddwr GRABBI
Rheolwr Datblygu Busnes GRABBI
Gwrthwynebydd

93. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Y Penderfyniad a Wnaed	Dim
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	04 Mawrth 2026

94. Datganiadau o Fuddiant

Y Penderfyniad a Wnaed	Dim
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	04 Mawrth 2026

95. Rhoi Trwydded Mangre ar gyfer GRABBI, 74 Heol Newydd, Porthcawl

Y Penderfyniad a Wnaed	<p>Cyflwynodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu adroddiad a ofynnodd i'r panel ystyried cais ar gyfer GRABBI, 74 Heol Newydd, Porthcawl. Dywedodd fod manylion y cais wedi'u nodi yn adran 2 ac yn llawn yn Atodiad A i'r adroddiad, a oedd yn tynnu sylw at yr oriau agor arfaethedig a'r defnydd o'r drwydded alcohol, a oedd at ddefnydd oddi ar y fangre yn unig. Derbyniwyd llawer o wrthwynebiadau ac roeddent i'w gweld yn Atodiad B i'r adroddiad.</p> <p>Gofynnodd Aelod sut yr oeddent yn bwriadu atal niwsans cyhoeddus ac annog pobl i beidio â loetran ac yfed alcohol y tu allan i'r fangre?</p> <p>Eglurodd y ceisydd y byddai CCTV yn cael ei weithredu y tu mewn a'r tu allan i'r fangre, gyda delweddau'n cael eu cadw am 31 diwrnod. Ychwanegodd y byddent yn defnyddio polisïau'r cynllun Challenge 25 ac yn hyfforddi'r holl staff i ddilysu manylion adnabod.</p> <p>Ychwanegodd y byddent hefyd yn arddangos arwyddion gwrthloetran i atal pobl rhag aros y tu allan i'r siop ar ôl prynu nwyddau. Dywedodd hefyd na fyddent yn gwerthu caniau unigol na chwrw a seidr o gryn gryfder.</p> <p>Gofynnodd Aelod sut y byddent yn rheoli unrhyw sbwriel posibl.</p> <p>Esboniodd y ceisydd, er na allent atal sbwriel, y byddent yn gwneud popeth yn eu gallu i hwyluso gwaredu priodol – er enghraifft, ychwanegu biniau y tu allan i'r siop a chael y staff i gynnal gwiriadau rheolaidd am</p>
------------------------	---

sbwriel. Ychwanegodd fod sbwriel yn digwydd.

Gofynnodd y Cadeirydd i Ms Pepper gyflwyno ei gwrthwynebiadau i'r pwyllgor. Crynhowyd y rhain isod:

- Dadleuodd nad oes angen siop drwyddedig arall o ystyried agoswydd siopau sydd yno ar hyn o bryd fel Londis, Aldi, a'r Co-op.
- Mynegodd bryderon ynghylch iechyd a diogelwch y cyhoedd, gan nodi problemau ar hyn o bryd gyda gwydr toredig, troethi cyhoeddus mewn lonydd cefn, a fêps wedi'u taflu.
- Tynnodd sylw at ddiffyg biniau cyhoeddus a'r potensial am fwy o sŵn mewn ardal breswyl.

Gofynnodd Aelod a oedd yr heddlu wedi ymwneud â'r cynnydd mewn sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Dywedodd Ms Pepper na fu monitro gweithredol mewn perthynas â'r problemau yn yr ardal hon oherwydd bod yr heddlu'n brysur. Dywedodd fod yr heddlu'n gwneud gwaith da ond nad oes ganddo'r gweithlu i gwmpasu pob ardal a bod yr ardal benodol hon wedi'i hesgeuluso.

Nid oedd unrhyw gwestiynau pellach gan yr aelodau ac felly gofynnodd y Cadeirydd i'r ddwy ochr ddarparu eu datganiadau clo.

PENDERFYNWYD: Roedd yr Hysbysiad o Benderfyniad fel a ganlyn:

“CAIS AM DRWYDDED MANGRE AR GYFER GRABBI, 74 HEOL NEWYDD, PORTHCAWL

YN BRESENNOL

Cynhaliodd yr Is-bwyllgor Trwyddedu wrandawriad ar 4 Mawrth 2026 i ystyried y cais a wnaed gan Grabbi Limited. Yn bresennol yn y gwrandawriad, yn y cnawd, oedd y canlynol: aelodau'r Is-bwyllgor Trwyddedu; ar ran y ceisydd, Mr Shijo Mundackal Jose (Cyfarwyddwr) a Mr Shins Jose (Rheolwr Datblygu Busnes); Ms Pamela Pepper fel

gwrthwynebydd i'r cais; y swyddog cyfreithiol, Katie Wintle, a'r Uwch Swyddog Trwyddedu, Kirsty Evans.

DEUNYDD GERBRON YR IS-BWYLLGOR

Ar ddechrau'r gwrandawriad, rhoddwyd gerbron yr Is-bwyllgor adroddiad gan Swyddog Trwyddedu'r Cyngor, a oedd yn cynnwys Atodiad A (copi o'r cais a'r cynllun) ac Atodiad B (sylwadau ysgrifenedig a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol). Ystyriodd yr Is-bwyllgor hefyd Ddeddf Trwyddedu 2003, Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor, a'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan Adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003.

ACHOS Y CEISYDD

Cadarnhaodd Mr Shijo Jose fod y cais hwn yn ymwneud ag eiddo yn 74 Heol Newydd, Porthcawl, a'u bod yn ddarparwr busnes cyfrifol, gan obeithio agor siop drwyddedig. Cadarnhaodd y byddent yn dilyn pob agwedd ar yr Amcanion Trwyddedu gan gynnwys atal trosedd ac anhrefn; diogelwch y cyhoedd; atal niwsans cyhoeddus; ac amddiffyn plant rhag niwed.

Dywedodd Mr Shins Jose y byddent yn gyfrifol iawn ac yn dilyn y polisiau a'r gweithdrefnau priodol ar gyfer gweithrediad y siop. Dywedodd ymhellach eu bod yn y broses o sefydlu siop arall yn Abercynffig ac y byddai'r siop ym Mhorthcawl yn ail siop iddynt. Er mwyn bod yn gyfrifol, dywedodd eu bod wedi cymryd yr holl fesurau i sicrhau diogelwch ac osgoi niwsans cyhoeddus a dilyn holl amcanion Deddf Trwyddedu 2003.

Gofynnodd Aelod a oedd y siop drwyddedig arall yn Abercynffig ar agor eto.

Dywedodd Mr Shijo Jose nad oedd ar agor eto gan eu bod yn aros am benderfyniad cynllunio, a dderbyniwyd ddoe.

Nododd Aelod eu bod yn nodi yn y cais y bydd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw ac y byddent yn sicrhau bod yr ardaloedd cyfagos yn parhau i fod yn ddiogel. Gofynnodd yr Aelod sut y byddai hynny'n cael ei gyflawni.

Dywedodd Mr Shins Jose y byddai CCTV y tu mewn a'r tu allan i'r fangre, y byddai'r cynllun Challenge 25 yn cael ei roi ar waith, ac y byddai'r holl staff yn cael eu hyfforddi i ddilysu manylion adnabod. Dywedodd hefyd eu bod yn ystyried mwy o bethau fel dim gwerthu caniau unigol o alcohol a pheidio â gwerthu unrhyw gwrw na seidr sydd â chryfder o fwy na 6.4%. O ran dim yfed y tu allan, dywedodd y byddai hyn yn cael ei fonitro gan staff drwy'r amser ac y byddent yn gweithio gyda Heddlu De Cymru, felly pe bai rhywbeth y tu hwnt i'w rheolaeth, byddent yn ffonio'r heddlu ac ailadroddod y byddai monitro cyson trwy gyfrwng CCTV.

	<p>Gofynnodd Aelod sut y byddent yn delio â phroblem sbwriel.</p> <p>Dywedodd Mr Shins Jose y byddent yn arddangos byrddau gwrthloetran ac y byddai staff yn cynnal gwiriadau rheolaidd i wneud yn siŵr nad oes sbwriel.</p> <p><u>ACHOS Y GWRTHWYNEBWYR</u></p> <p>Dywedodd Ms Pamela Pepper nad oes ganddi unrhyw wrthwynebiad i bethau newydd ond ei bod hi'n byw wrth ymyl yr adeilad hwnnw ac mae yna siop ddiodydd 12 drws i fyny eisoes a'r pryder yw nad oes angen cael un arall mor agos. Dywedodd fod lôn gefn y tu ôl i'r holl adeiladau sy'n annymunol a bod yna lawer o boteli toredig ac amryw o bethau y mae pobl yn eu taflu. Mae yna becynnau, poteli toredig, ac weithiau troethi yn y stryd a gall fynd ychydig yn wallgof weithiau. Mae'n ardal breswyl ac nid yw'n ddiogel i blant na phobl anabl a hŷn. Mae plant yn rhedeg i fyny ac i lawr heb dalu sylw fel y mae gydag un siop gyfleustra, a phe bai un arall, byddai'r sefyllfa hyd yn oed yn waeth. Dywedodd ei bod hi'n gyson yn codi fêps a pheynnau y tu allan i'w drws neu hyd yn oed oddi ar silff ei ffenestr. Cynghorodd ei bod yn ardal hyfryd ond bod llawer yn digwydd a bod y cyfan yn gysylltiedig â phroblemau eraill fel parcio a sŵn ac, yn y nos, mae'n mynd yn eithaf swnllyd os oes yna bobl yn mynd i mewn i siop ac yn prynu cwrw neu wirod ac nid yw'n ddiogel i'r plant gan fod fêps a gwirod yn cael eu rhoi iddyn nhw. Roedd hi'n poeni nad oes unrhyw finiau o gwbl o flaen y siop bresennol nac yn unman ar hyd Heol Newydd i bobl ac mae wedi dod yn ddiwylliant nawr gyda'r agwedd y bydd rhywun arall yn ei gasglu. Dywedodd Ms Pepper ei bod hi'n talu ei Threth Gyngor a dylai orfod gwneud hyn ac mae hi wedi cael llond bol ar y lle'n cael ei drin fel dymp. Dywedodd hefyd nad oedd hi'n credu bod angen siop arall gan fod ganddynt sawl siop ac archfarchnad arall o fewn pellter cerdded.</p> <p>Gofynnodd Aelod a oedd yr heddlu wedi ymwneud â'r cynnydd mewn sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.</p> <p>Dywedodd Ms Pepper ei bod, yn anffodus, yn broblem ym Mhorthcawl a bod yr heddlu dan bwysau mawr ac nid ydynt bob amser o gwmpas y lle. Mae'r heddlu'n gwneud gwaith da, ond os nad yw'n gallu monitro'r problemau yn yr ardal ar hyn o bryd gydag un siop, bydd yn gwaethygu gydag un arall. Mae'r orsaf leol ym Mhorthcawl wedi cau, ac mae'r heddlu ymhellach i ffwrdd o le mae'r problemau. Dywedodd ei bod hi wedi byw yno ers tair blynedd a'i bod yn gymdogaeth ddiogel a'i bod hi eisiau ei chadw felly. Mae hi eisiau i'r henoed, yr anabl a phlant allu ei mwynhau heb boeni am y lleiafrif o bobl sy'n camymddwyn. Nid yw'r henoed na'r anabl yn hoffi gadael eu cartrefi oherwydd plant a phobl feddw ac nid oedd hi'n gwybod sut y byddai cael siop arall yn gwerthu alcohol yn helpu hynny. Roedd hi'n poeni y gallai plant brynu fêps a chwrrw a gwin gan ei bod hi wedi'u gweld yn y lôn gefn. Dywedodd Ms Pepper ei fod yn deimlad annymunol ac nad oedd hi eisiau mynd allan weithiau. Mae plant yn treulio amser yn chwarae ar</p>
--	---

Heol Newydd yn cicio peli, a chyda siop ychwanegol, bydd yn waeth byth. Dim ond 13 drws sydd ar y bloc cyfan ac nid yw cael un siop ar un pen ac yna un arall ar y pen arall yn gwneud synnwyr.

DATGANIADAU CLO

Dywedodd Ms Pepper na fydd hi'n ailadrodd yr holl faterion gan ei bod hi wedi mynd i'r afael â nhw. Dywedodd fod un siop eisoes ar gael ar gyfer beth bynnag yw eich anghenion ac nad yw bob amser yn brysur, felly nid yw'n ymddangos bod angen siop ychwanegol gan fod un yn ormod. Nid oes biniau o gwbl yn unman a dylai synnwyr cyffredin ddweud hyn oherwydd os yw siop yn gwerthu eitemau darvoudus gyda pheccynnau a photeli, dylai fod bin y gall pobl ei ddefnyddio i roi eu sbwriel ynddo gan mai ychydig iawn o bobl sy'n mynd â'u sbwriel gyda nhw. Roedd Ms Pepper yn derbyn nad oedd parcio yn rhan o'r hyn y byddai'r Pwyllgor Trwyddedu yn ei ystyried, ond dywedodd fod parcio yn gyfyngedig i drigolion ac na fydd unman i ddefnyddwyr y siop barcio. Bydd yna 'barcio dwbl' a byddant yn tagu'r lôn gefn wrth ei defnyddio fel man parcio.

Dywedodd Mr Shijo Jose ei fod yn deall yn llwyr yr hyn y mae'r gwrthwynebydd wedi'i ddweud heddiw a bod anawsterau i'w hwynebu. Dywedodd fod siop gyfleustra 'Londis' i lawr y ffordd. Ei farn ef yw bod yr ardal yn cael ei chadw'n lân ac yn daclus ac nad oes unrhyw boteli ger y siop hon. Dywedodd ei fod wedi bod yn berchen ar yr adeilad ers tair blynedd a'u bod nhw'n arfer rhedeg swyddfa gwasanaeth gofal cartref o'r fan honno ac nad oedd dim byd y tu allan – roedd yn cael ei chadw'n lân ac ni châi unrhyw boteli eu taflu yno. Dywedodd fod y lle wedi bod ar gau ers bron i flwyddyn bellach ac efallai fod pobl wedi dechrau ei ddefnyddio fel lle i daflu poteli ac ati a byddent yn dychmygu y byddai adeilad caeedig yn gwneud i'r cyhoedd ei ddefnyddio fel man i daflu sbwriel yn hytrach na lle braf sydd ar agor a'n cyfrifoldeb yw gofalu am yr ardal o flaen ein siop. Mae Grabbi bob amser yn gweithredu gyda CCTV, gan sicrhau y bydd yr ardal yn cael ei monitro'n gyson os caiff ei hagog fel siop gyfleustra. Dywedodd y bydd parcio ar y ddwy ochr i'r eiddo. Ei farn oedd bod y siop gyfleustra arall wedi cynnal ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol i ofyn i bobl wrthwynebu'r cais hwn ac roedd yn poeni nad oedd rhai o'r cwynion yn ddilys ac roedd am ddod â hyn i sylw'r Cadeirydd.

Dywedodd Mr Shins Jose ei fod yn deall pryderon y trigolion lleol yn llwyr. O ran mynediad at fêps ac alcohol, byddant yn sefydliad cyfrifol o'r diwrnod cyntaf. Bydd y cynllun Challenge 25 yn cael ei roi ar waith gyda'r holl staff wedi'u hyfforddi. Byddant hefyd yn gweithredu gwaharddiad ar werthu caniau unigol ac ni fyddant yn gwerthu alcohol i bobl sydd eisoes yn feddw. Dywedodd nad oes polisi effaith gronnus ar gyfer yr ardal hon ac nad oes

IS-BWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 (B) - DYDD MERCHER, 4 MAWRTH 2026

	<p>unrhyw awdurdod cyfrifol wedi gwrthwynebu, gan gynnwys yr heddlu. Gofynnodd i'r Pwyllgor ystyried hyn yn ôl ei rinweddau ei hun ac y byddant yn gweithredu o dan ddiogelwch llym, gyda CCTV y tu mewn a'r tu allan a delweddau'n cael eu cadw am 31 diwrnod. Bydd oedran yn cael ei wirio'n llym a bydd deiliad trwydded bersonol yn gweithio ar bob shifft. Maent yn deall bod yr amodau trwyddedu yn gyfreithlon a byddant yn dilyn yr holl amodau fel y crybwyllir.</p> <p><u>PENDERFYNIAD YR IS-BWYLLGOR</u></p> <p>Rhaid i'r Is-bwyllgor hyrwyddo'r holl amcanion trwyddedu statudol wrth wneud penderfyniadau. Mae'r Is-bwyllgor wedi ystyried Deddf Trwyddedu 2003, Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor, a'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref o dan adran 182 o'r Ddeddf. Mae'r Is-bwyllgor hefyd wedi ystyried y sylwadau a wnaed gan y ceisydd a'r gwrthwynebwyr, yn ysgrifenedig ac ar lafar.</p> <p>Nododd yr Is-bwyllgor nad yw materion fel yr angen am fangre newydd, traffig neu barcio o fewn cylch gwaith yr awdurdod trwyddedu ac felly ni ystyriodd sylwadau o'r fath yn ei broses benderfynu.</p> <p>O ystyried yr uchod, mae'r Is-bwyllgor wedi penderfynu caniatáu'r cais gydag amodau sy'n unol â'r amserlen weithredu fel y'i cyflwynwyd gan y ceisydd, yn ogystal â'r amodau canlynol:-</p> <ol style="list-style-type: none">1. Dim gwerthu caniau unigol i gwsmeriaid; a2. Dim gwerthu seidr/cwrw o 6.5% ABV neu uwch
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	04 Mawrth 2026

I weld y ddadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon